**Cyngor Sir**
**CEREDIGION**

**CEREDIGION**
**County Council**

# ATAFAELU ENILLION YN UNIONGYRCHOL

# CANLLAW I GYFLOGWYR

# Canllaw i Gyflogwyr ynghylch Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol i Gasglu Gordaliadau Budd-dal Tai

**Cynnwys** **Tudalen**


1 Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol (DEA) - Cyflwyniad 1
1.1 Pam fod y Cyngor yn defnyddio trefniadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol? 1
1.2 Oes rhaid I gyflogwr roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith? 1
1.3 Beth os nad yw meddalwedd y gyflogres wedi'i diweddaru er mwyn rhoi trefniant DEA ar waith? 1

2 Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol (DEA) – Gwybodaeth Gefndir 2
2.1 Eich Cyfrifoldebau 2
2.2 Darparu gwybodaeth 2
a) Gan Gyngor Sir Ceredigion 2
b) I Gynfor Sir Ceredigion 2
c) I'ch cyflogai 3

3 Beth sy'n rhaid I gyflogwr ei wneud I roi trefniant DEA ar waith? 3
3.1 Hysbysiad gan y Cyngor 3
3.2 Didyniadau 3
3.3 Taliadau i'r Cyngor 3

4 Pa daliadau sy'n cyfrif fel enillion at ddibenion trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol (DEA)? 4

5 Beth yw Enillion Net? 4

6 Sut ydw I'n cyfrifo'r swm i'w ddidynnu? 5
6.1 Pan fyddwch chi'n cyfrifo'r swm i'w ddidynnu, rhaid ichi… 5
6.2 Symiau i'w didynnu gan y cyflogwr 5
a) Lefel yr incwm a warchodir 5
b) Cyflogeion sy'n cael eu talu bob pythefnos 6
c) Cyflogeion sy'n cael eu talu bob pedair wythnos 6
d) Tâl gwyliau 6
e) Talgrynnu 6
f) Costau gweinyddol – faint allwch chi ei godi ar eich cyflogai? 6

7 Beth os na fyddwch chi'n gwneud didyniadau neu'n didynnu'r symiau anghywir? 7

8 Mae gan eich cyflogai orchmynion llys eraill yn ei erbyn. Beth sy'n cael blaenoriaeth? 7

9 Beth os nad yw fy nghyflogai'n ennill digon imi wneud didyniad? 8

10 Nid yw'ch cyflogai'n credu bod y swm sy'n ddyledus yn gywir 8

11 Mae'ch cyflogai'n credu bod y swm i'w ddidynnu'n ormodol 8

12 Beth fydd yn digwydd ar ôl imi roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith? 8

13 Gwneud taliadau i Gyngor Sir Ceredigion 9
13.1 Talu drwy BACS (Trosglwyddiad Credyd Awtomatig) 9
13.2 Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol 9
13.3 E-bostio'r Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol atom 10

14 Exa Esiamplau ymarferol o drefniadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol 10

15 W Ble alla i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor? 11

16 Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol – Rhestr wirio i gyflogwyr 11

17 Cyngor Sir Ceredigion – Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol 12

## 1. Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol – Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am adennill arian sy'n ddyledus iddo mewn perthynas â dyledion sy'n codi o dan Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992.

Ers mis Ebrill 2013, mae gan Awdurdodau Lleol bŵer i adennill Budd-daliadau Tai a ordalwyd drwy ddidynnu symiau o enillion, heb fod angen gwneud cais am orchymyn llys. Gwneir hyn drwy ddefnyddio trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol (Direct Earnings Attachments / DEA).

Rhoddwyd y pŵer hwn i Awdurdodau Lleol gan Reoliadau Nawdd Cymdeithasol (Gordalu ac Adennill) 2013. Mae copi o'r rheoliadau llawn ar gael ar y wefan hon (Oherwydd natur dechnegol y ddogfen hon, nid yw ar gael yn Gymraeg) - http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2013/384/contents/made ac mae'r adran sy'n berthnasol i'r canllaw hwn ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2013/384/part/6/made

### 1.1 Pam fod y Cyngor yn defnyddio trefniadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol?

Nid yw pawb yn ymrwymo i gytundeb ad-dalu gwirfoddol. Mae'r trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol yn gyfle inni adennill budd-daliadau a ordalwyd gan ddyledwyr cyflogedig os ydynt yn gwrthod ad-dalu, os nad oes modd iddynt gytuno ar gynllun ad-dalu derbyniol, neu os ydynt wedi methu taliad o dan gytundeb ad-dalu gwirfoddol.

### 1.2 Oes rhaid i gyflogwyr roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith ar gyfer y Cyngor?

Oes. Mae arnoch ddyletswydd gyfreithiol i wneud hyn oni bai eich bod yn ficrofusnes (yn cyflogi llai na 10 o weithwyr). Mewn achosion o'r fath, nid oes rhaid i chi roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith, ond gallwch wneud hyn os yw'r cyflogai'n cytuno.

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'ch dyletswyddau, gallech gael dirwy o hyd at £1000 os bydd llys yn eich cael yn euog.

### 1.3 Beth os nad yw meddalwedd y gyflogres wedi'i diweddaru er mwyn rhoi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith?

Efallai nad yw eich system gyfrifiadurol wedi'i diweddaru hyd yma i ymdrin â threfniadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn cydweithio â Sefydliad Siartredig y Gweithwyr Cyflogres Proffesiynol, cynrychiolwyr cyflogwyr a darparwyr meddalwedd cyflogres i ddatblygu datrysiad hirdymor priodol. Fodd bynnag, hyd nes i'ch meddalwedd newid, bydd angen ichi ddilyn y cyfarwyddiadau isod, yn ogystal â'r canllawiau cyffredinol a geir yn y ddogfen hon. Pan fydd eich system wedi'i diweddaru, efallai na fydd angen yr wybodaeth ar y dudalen gyntaf arnoch mwyach.

Hyd nes i'ch meddalwedd gael ei diweddaru, os ydych yn defnyddio system gyfrifiadurol ar gyfer y gyflogres a'ch bod yn cael cais i roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith, bydd angen ichi:

a) Cyfrifo â llaw y swm i'w ddidynnu o'r enillion. Ewch i'r adran 'Sut ydw i'n cyfrifo'r swm i'w ddidynnu (adran 6)?' i gael gwybod sut i wneud hyn.

b) Gwirio â llaw a oes unrhyw orchmynion eraill ar waith ar hyn o bryd, oherwydd gall y trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol gael blaenoriaeth drostynt. Cewch hyd i restr o'r holl orchmynion a'r ffordd y maent yn effeithio ar drefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol yn yr adran 'Mae gan y cyflogai Orchmynion Llys eraill yn ei erbyn (adran 8)'.

c) Mewn achosion lle mae’r trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol yn cael blaenoriaeth dros orchymyn arall, dylech ystyried a oes angen dirwyn y gorchmynion eraill i ben neu ailgyfrifo’r symiau i’w didynnu.

d) Mewn achosion lle na ellir rhoi gorchmynion eraill ar waith, dylech sicrhau eu bod yn cael eu dileu o’r system gyflogres a dylech eu hailgyflwyno i’r system ar ôl i’r trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ddod i ben.

## 2. Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol – Gwybodaeth Gefndir

Mae gan y drefn Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ei rheoliadau ei hun, ac maent yn dilyn rhai o brosesau’r Gorchymyn Didynnu o Enillion a rhai o brosesau’r Gorchymyn Atafaelu Enillion. Nid yw trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol yn disodli’r naill na’r llall o’r gorchmynion hyn, ac fe allech gael ceisiadau o hyd i wneud didyniadau o dan Orchymyn Didynnu o Enillion neu Orchymyn Atafaelu Enillion.

### 2.1 Eich cyfrifoldebau

Fel cyflogwr, mae arnoch ddyletswydd **gyfreithiol** i:

- roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith pan fyddwn yn gofyn ichi wneud didyniadau o enillion net cyflogai
- talu’r swm a ddidynnir i ni erbyn 19eg diwrnod y mis ar ôl i’r arian gael ei ddidynnu
- cadw cofnod o bob didyniad a wneir, a’r cyflogai y cafodd yr arian ei ddidynnu o’i enillion
- parhau i roi’r trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith hyd nes bod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi gwybod i chi y dylech roi’r gorau i ddidynnu’r arian, neu hyd nes bod y cyflogai’n gadael ei swydd
- sicrhau eich bod yn didynnu’r swm cywir o enillion eich cyflogai bob wythnos neu bob mis a’i dalu i ni

Os na fyddwch yn cydymffurfio â’ch dyletswyddau, gallech gael dirwy o hyd at £1000 os bydd llys yn eich cael yn euog.

### 2.2 Darparu gwybodaeth

a) **Gan Gyngor Sir Ceredigion** – byddwn yn anfon hysbysiad atoch a fydd yn gofyn ichi roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith ar gyfer enillion eich cyflogai. Bydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i roi’r trefniant ar waith.

b) **I Gyngor Sir Ceredigion** – mae arnoch ddyletswydd i roi gwybod inni:

- Os byddwn yn gofyn ichi roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith ar gyfer rhywun sydd ddim yn gweithio i chi
- Os bydd cyflogai sy’n destun trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol yn gadael ei swydd
- Os ydych yn ficrofusnes (yn cyflogi llai na 10 o weithwyr). Os ydych yn ficrofusnes, nid oes rhaid ichi roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith, ond gallwch wneud hyn os yw’r cyflogai’n cytuno.

Rhaid ichi lenwi’r ffurflen a’i hanfon i’r cyfeiriad a nodir ar y llythyr sy’n gofyn ichi roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith neu’i hanfon drwy e-bost cyn pen 10 diwrnod ar

ôl dyddiad y llythyr hwnnw os yw unrhyw un o'r pwyntiau uchod yn berthnasol i chi. Dylech hefyd roi gwybod inni os bydd eich busnes yn dod i ben.

c) **I'ch cyflogai** – mae arnoch ddyletswydd i roi gwybod yn ysgrifenedig i'ch cyflogai:

- Am swm yr arian a ddidynnir, gan gynnwys unrhyw swm a gymerir ar gyfer costau gweinyddol (gweler adran 6.2 (f) am gostau gweinyddol). Os yw'r wybodaeth hon i'w gweld ar ei slip talu, bydd hyn yn ddigonol.
- Sut y cafodd y didyniad ei gyfrifo.

Rhaid ichi wneud hyn (a'i gofnodi) erbyn y diwrnod talu ar ôl y diwrnod pan gafodd y didyniad ei wneud fan bellaf.

## 3. Beth sy'n rhaid i gyflogwr ei wneud i roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith?

### 3.1. Hysbysiad gan y Cyngor

Bydd y Cyngor yn anfon llythyr atoch (hysbysiad yw'r enw swyddogol arno) a fydd yn dweud wrthych am roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith ar gyfer eich cyflogai ac a fydd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud hyn. Bydd yn cynnwys:

- Enw, cyfeiriad a rhif yswiriant gwladol y sawl y byddwch yn didynnu swm o'i enillion.
- Rhif staff, rhif cyflogres neu gyfeirnod o'r fath ar gyfer y cyflogai, os yw'r wybodaeth hon yn ein meddiant.
- Y cyfraddau canrannol i'w defnyddio i wneud didyniadau.
- Cyfran yr enillion a warchodir (gweler adran 6.2 (a)).
- Pryd i anfon y taliadau atom.
- Manylion y cyfrif i drosglwyddo'r taliadau iddo os byddwch yn talu drwy BACS (Trosglwyddiad Credyd Awtomatig).

### 3.2 Didyniadau

Pan fyddwch chi'n cael yr hysbysiad, bydd angen ichi wirio bod eich cyflogai'n ennill digon i ganiatáu i arian gael ei ddidynnu. Os yw'n ennill digon, gallwch gyfrifo faint o arian i'w ddidynnu o'i enillion drwy ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan y Cyngor a gwneud y didyniadau.

### 3.3 Taliadau i'r Cyngor

Pan fyddwch chi wedi didynnu'r arian, rhaid ichi ei dalu i'r Cyngor o fewn cyfnod penodol. Byddwn yn gofyn ichi wneud taliadau yn unol â'ch cyflogres. Felly, os yw'ch cyflogai'n cael ei dalu bob wythnos neu bob mis, dylech ein talu ni ar yr un pryd.

Fodd bynnag, os yw'ch cyflogai'n cael ei dalu bob wythnos, rhaid ichi gyfrifo a didynnu'r taliad bob wythnos, ond gallwch ein talu ni bob pedair wythnos os yw'n well gennych wneud hynny.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn didynnu'r swm cywir o enillion eich cyflogai bob wythnos neu bob mis a'i dalu i ni.

## 4. Pa daliadau sy’n cyfrif fel enillion at ddibenion trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol (DEA)?

| Beth sy’n cyfrif fel ‘enillion’ ar gyfer trefniant DEA | Beth sydd ddim yn cyfrif fel ‘enillion’ ar gyfer trefniant DEA |
|---|---|
| Tâl (wages) | Tâl Mamolaeth Statudol |
| Cyflog (salary) | Tâl Mabwysiadu Statudol |
| Ffioedd | Tâl Tadolaeth Statudol Cyffredin |
| Taliadau bonws | Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol |
| Taliadau comisiwn | Unrhyw bensiwn, budd-dal, lwfans neu gredyd a delir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdod lleol neu Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| Taliadau goramser | Isafswm pensiwn gwarantedig o dan Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 |
| Y rhan fwyaf o’r taliadau eraill a wneir yn ychwanegol at dâl | Symiau a delir gan un o adrannau cyhoeddus Llywodraeth Gogledd Iwerddon neu unrhyw le y tu allan i’r Deyrnas Unedig |
| Pensiynau galwedigaethol, os cânt eu talu gyda’r tâl neu’r cyflog | Symiau a delir i ad-dalu treuliau yr aethpwyd iddynt yn llwyr neu o reidrwydd yn rhinwedd y swydd |
| Taliadau achlysurol i ddigolledu am golli, diddymu neu ildio, neu leihau enillion, swydd neu gyflogaeth | Tâl neu lwfans fel aelod o luoedd Ei Mawrhydi, ac eithrio tâl neu lwfans sy’n daladwy i’r cyflogai gennych chi fel aelod arbennig o lu wrth gefn |
| Tâl Salwch Statudol | Cyfandaliad dileu swydd a thâl yn lle rhybudd |

Os mai dim ond yr enillion yn y golofn dde y mae’r cyflogai’n eu cael, ni allwch gyfrifo didyniad Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol. Yn yr un modd, os telir unrhyw rai o’r taliadau yn y golofn dde fel rhan o’i enillion, ni chewch eu cynnwys fel rhan o enillion net y cyflogai.

## 5. Beth yw enillion net?

Rhaid ichi ddidynnu’r swm Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol o enillion net eich cyflogai yn uniongyrchol. Yr enillion net yw’r enillion sy’n weddill ar ôl didynnu:

- Treth Incwm
- Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1
- Cyfraniadau i bensiwn gweithle (gan gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Annibynnol, a Chyfraniadau i Bensiwn Cyfranddeiliaid)

## 6. Sut ydw i'n cyfrifo'r swm i'w ddidynnu?

**6.1 Pan fyddwch chi'n cyfrifo'r swm i'w ddidynnu o dan drefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol, rhaid ichi**:

- sicrhau bod gan eich cyflogai ddigon o enillion net yn ystod y cyfnod talu ichi gyfrifo didyniad (gweler tablau A a B isod).
- sicrhau eich bod wedi defnyddio'r gyfradd ganrannol gywir ar gyfer yr enillion net hynny.
- sicrhau nad yw'r enillion sy'n weddill gan y cyflogai ar ôl yr holl ddidyniadau'n llai na chyfran yr enillion a warchodir, sef 60% o gyfanswm ei enillion net yn ystod y cyfnod cyfrifo y mae'r didyniad yn berthnasol iddo.
- Cyfrifo enillion net y cyflogai (fel yr eglurwyd eisoes yn adrannau 3 a 4).
- Defnyddio tabl A neu B (isod) i ganfod y gyfradd ganrannol gywir i ddidynnu swm o enillion net y cyflogai.
- Lluosi'r ffigur canrannol â'r ffigur enillion net i gyfrifo'r swm i'w ddidynnu.

**6.2 Symiau i'w didynnu gan y cyflogwr**

**TABL A: Os yw'r enillion yn cael eu talu bob wythnos**

| Swm yr enillion net | Didyniad (canran o'r enillion net) |
|---|---|
| Llai na £100 | Dim |
| Mwy na £100 ond heb fod yn fwy na £160 | 3% |
| Mwy na £160 ond heb fod yn fwy na £220 | 5% |
| Mwy na £220 ond heb fod yn fwy na £270 | 7% |
| Mwy na £270 ond heb fod yn fwy na £375 | 11% |
| Mwy na £375 ond heb fod yn fwy na £520 | 15% |
| Mwy na £520 | 20% |

**TABL B: Os yw'r enillion yn cael eu talu bob mis**

| Swm yr enillion net | Didyniad (canran o'r enillion net) |
|---|---|
| Llai na £430 | Dim |
| Mwy na £430 ond heb fod yn fwy na £690 | 3% |
| Mwy na £690 ond heb fod yn fwy na £950 | 5% |
| Mwy na £950 ond heb fod yn fwy na £1,160 | 7% |
| Mwy na £1,160 ond heb fod yn fwy na £1,615 | 11% |
| Mwy na £1,615 ond heb fod yn fwy na £2,240 | 15% |
| Mwy na £2,240 | 20% |

**a) Lefel yr incwm a warchodir**

Sylwch: rhaid sicrhau nad yw cyfanswm yr holl ddidyniadau (Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ac unrhyw ddidyniadau eraill) yn golygu bod enillion y cyflogai'n llai na chyfran yr enillion a warchodir, sef 60% o gyfanswm ei enillion net yn ystod y cyfnod cyfrifo y mae'r didyniad yn berthnasol iddo.

**b) Cyflogeion sy’n cael eu talu bob pythefnos**

Os yw cyflogai’n cael ei dalu bob pythefnos, dylech rannu cyfanswm yr enillion net â 2 a defnyddio tabl A i weld beth yw’r gyfradd ganrannol.

**c) Cyflogeion sy’n cael eu talu bob pedair wythnos**

Os yw cyflogai’n cael ei dalu bob pedair wythnos, dylech rannu cyfanswm yr enillion net â 4 a defnyddio tabl A i weld beth yw’r gyfradd ganrannol.

**Sylwch:** Ni ddylai’r cyflogai gael llai na 60% o gyfanswm ei enillion net.

**d) Tâl gwyliau**

Os yw cyflogai’n cael tâl sy’n cynnwys tâl gwyliau a delir ymlaen llaw, rhaid canfod beth yw cyfartaledd y tâl net, a lluosi’r ffigur cyfartalog â’r gyfradd ganrannol berthnasol. Er enghraifft:

Mae’r cyflogai wedi cael tâl am un wythnos a thâl gwyliau am bythefnos.
Cyfanswm y taliad net am dair wythnos = £850.

- £850 ÷ 3 = £283.33
- £283.33 x 11% = £31.17
- Y cyfanswm i’w ddidynnu o’r tâl net o £850 am dair wythnos = £93.51 (£31.17 x 3).

**e) Talgrynnu**

Caiff union swm yr enillion net ei luosi â’r ganran yn nhabl A a B. Os yw’r ganran a gyfrifir yn rhoi ffracsiwn o geiniog, dylech ei dalgrynnu i’r geiniog gyfan agosaf, gan dalgrynnu hanner ceiniog union i lawr i’r geiniog gyfan agosaf, fel y dangosir isod:

| | |
|---|---|
| • Tâl net o £235.63 yr wythnos<br>• £235.63 x 7% = £16.4941<br>• Didyniad wythnosol = £16.49 | • Tâl net o £1547.99 y mis<br>• £1547.99 x 11% = £170.278<br>• Didyniad misol = £170.28 |

**f) Costau gweinyddol – Faint allwch chi ei godi ar eich cyflogai?**

Ar gyfer pob cyfnod talu y byddwch yn cyfrifo didyniad Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol, gallwch hefyd gymryd hyd at £1.00* o enillion eich cyflogai tuag at eich costau gweinyddol. Gallwch gymryd y tâl hwn hyd yn oed os bydd incwm y cyflogai’n disgyn islaw cyfran yr enillion a warchodir.

*__Mewn achosion pan fyddwch chi’n penderfynu codi tâl gweinyddol o £1.00, mae’n bosib yn sgil y didyniad y bydd cyflog y gweithiwr yn is na’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Dylai gyflogwyr wirio hyn ar [https://www.gov.uk/national-minimum-wage/employers-and-the-minimum-wage](https://www.gov.uk/national-minimum-wage/employers-and-the-minimum-wage), neu gysylltu â llinell gymorth ACAS am gyngor.__

**Mae’n drosedd i gyflogwyr peidio â thalu Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu Cyflog Byw Cenedlaethol.**

## 7. Beth os na fyddwch chi’n gwneud didyniadau neu’n didynnu’r symiau anghywir?

Os na fyddwch chi’n didynnu swm o enillion net cyflogai pan ddylech chi neu os byddwch chi’n didynnu’r swm anghywir, dylech gywiro’r sefyllfa ar y diwrnod neu’r diwrnodau talu nesaf.

Os yw’r swm yn anghywir oherwydd bod y swm a ddidynnwyd yn llai na’r swm a bennwyd o dan y rheoliadau, dylech:

- ddidynnu’r swm sy’n ofynnol ar gyfer y cyfnod talu cyfredol.
- yna, dylech ychwanegu’r gwahaniaeth rhwng y swm anghywir a’r swm cywir ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Os yw’r swm yn anghywir oherwydd bod y swm a ddidynnwyd yn fwy na’r swm a bennwyd o dan y rheoliadau, dylech:

- ddidynnu’r swm sy’n ofynnol ar gyfer y cyfnod talu cyfredol.
- yna, dylech dynnu’r gwahaniaeth rhwng y swm anghywir a’r swm cywir ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Os byddwch yn lleihau didyniad mewn unrhyw wythnos neu fis oherwydd bod y trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ynghyd ag unrhyw orchmynion eraill yn mynd tu hwnt i derfyn yr enillion a warchodir o 60% (gweler enghraifft 3 – tudalen 11), mae’n bwysig nodi NAD yw hyn yr un fath â’r diffyg a ddisgrifir uchod.

Mae diffyg yn digwydd dim ond pan fyddwch wedi didynnu’r swm anghywir drwy amryfusedd, neu pan fyddwch wedi methu â gwneud un neu ragor o ddidyniadau.

**Sylwch hefyd na all y cyfanswm i’w ddidynnu, gan gynnwys addasiadau ar gyfer didyniad anghywir ac unrhyw ddidyniadau eraill, beri i’r cyflogai ennill llai na’r terfyn enillion gwarchodedig o 60% ym mhob cyfnod talu.**

## 8. Mae gan eich cyflogai orchmynion llys eraill yn ei erbyn. Beth sy’n cael blaenoriaeth?

Gall y llysoedd wneud gorchmynion sy’n golygu bod rhaid ichi ddidynnu arian yn uniongyrchol o enillion eich cyflogai mewn ffordd debyg i’r hyn yr ydym yn gofyn ichi ei wneud o dan drefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol. Er enghraifft, gall fod gan eich cyflogai Orchymyn Atafaelu Enillion (Cymru a Lloegr) neu Orchymyn Didynnu o Enillion (ar gyfer Cynhaliaeth Plant). Gellir cyflwyno trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol heb orchymyn llys, ond os oes gan eich cyflogai orchmynion didynnu eraill, mae rheolau’n nodi pa arian i’w gymryd yn gyntaf.

Os oes gan eich cyflogai un neu ragor o’r gorchmynion hyn, byddant yn cael blaenoriaeth dros drefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol:

a) **Cymru a Lloegr**
   - Gorchymyn Didynnu o Enillion (DEO) gan y Grŵp Cynhaliaeth Plant (CMG)
   - Gorchymyn Atafaelu Enillion (AEO) ar gyfer Cynhaliaeth neu Ddirwyon
   - Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor (CTAEO)

b) **Yr Alban**
  - Gorchymyn Didynnu o Enillion (DEO) gan y Grŵp Cynhaliaeth Plant (CMG)
  - Arestiad Enillion (EA)

c) **Benthyciadau Myfyrwyr**
Mae ad-dalu benthyciad myfyrwyr hefyd yn cael blaenoriaeth dros drefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol. Mae hyn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Pan fydd y gorchmynion hyn sy'n flaenoriaeth wedi cael eu hystyried yn eich cyfrifiad, bydd trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol yn cael blaenoriaeth dros orchmynion neu hysbysiadau eraill mewn **trefn gronolegol** (yn yr Alban, hwn fydd y dyddiad y maent yn cael eu derbyn). Bydd y swm y gallwch ei ddidynnu'n dibynnu ar yr enillion net sydd ar gael uwchlaw'r terfyn enillion a warchodir o 60% o'r enillion net.

## 9. Beth os nad yw fy nghyflogai'n ennill digon imi wneud didyniad?

Os yw'r enillion wythnosol neu fisol islaw'r trothwy (gweler tabl A a B ar dudalen 5), ni allwch gyfrifo didyniad Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol.

Rhaid ichi roi gwybod i'r Cyngor pam na allwch wneud didyniad gan ddefnyddio'r Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol (gweler adran 13.2 i gael gwybodaeth am hyn).

Rhaid ichi barhau i gyfrifo a ellir gwneud didyniad Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ym mhob cyfnod talu hyd nes inni ddweud wrthych am roi'r gorau i wneud hyn neu hyd nes i'ch cyflogai adael ei swydd.

## 10. Nid yw'ch cyflogai'n credu bod y swm sy'n ddyledus yn gywir

Os nad yw'ch cyflogai'n credu bod y swm sy'n ddyledus yn gywir, dylech ddweud wrtho/wrthi am gysylltu â'r adain Adennill Gordaliadau Budd-dal Tai ar fyrder drwy ffonio'r rhif ar frig y llythyr a gafodd am y trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol. Y rhif ffôn hwnnw yw 01970 633252.

## 11. Mae'ch cyflogai'n credu bod y swm i'w ddidynnu'n ormodol

Os yw'n credu bod y swm a gyfrifwyd gennych yn ormodol, dylech wirio a yw'r swm sy'n cael ei ddidynnu'n gywir yn ôl tabl A neu B (tudalen 5) ar sail ei enillion ac unrhyw orchmynion eraill. Os yw'r swm yn gywir, dylech egluro eich bod wedi gwneud y didyniad yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd i chi. Os nad yw'n credu y gall ymdopi â'r didyniad hwnnw, dylech ddweud wrtho/wrthi am gysylltu â ni.

## 12. Beth fydd yn digwydd ar ôl imi roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith?

Pan fyddwch chi wedi dechrau gweithredu trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol, rhaid ichi barhau i wneud taliadau inni hyd nes inni ddweud wrthych am roi'r gorau i wneud hyn neu hyd nes eich bod wedi didynnu'r uchafswm i'w adennill o'r enillion. Byddwn yn cysylltu â chi pan fydd angen ichi roi'r gorau i wneud didyniadau neu os bydd angen ichi newid y swm i'w ddidynnu.

Os bydd yr amgylchiadau'n newid mewn ffordd sy'n golygu na allwch barhau i weithredu'r trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol, rhaid ichi roi gwybod inni yn ysgrifenedig cyn pen 10 diwrnod ar ôl y newid hwnnw. Yn y lle cyntaf, gofynnwn ichi ein ffonio i roi gwybod inni oherwydd gall fod modd inni gyflymu'r broses weinyddu.

**Os oes angen ichi roi gwybod inni am newid o'r fath, ffoniwch yr adain Adennill Gordaliadau Budd-dal Tai ar 01970 633252 neu anfonwch e-bost at devandcontrol@ceredigion.gov.uk**

## 13. Gwneud taliadau i Gyngor Sir Ceredigion

Pan fyddwch yn cael hysbysiad i roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith, rhaid ichi:

- wneud taliadau rheolaidd i ni hyd nes inni ddweud wrthych am stopio neu hyd nes i'r uchafswm i'w adennill gael ei ddidynnu o enillion eich cyflogai.
- talu'r swm yr ydych wedi'i ddidynnu o dâl eich cyflogai i Gyngor Sir Ceredigion cyn gynted â phosibl, ond heb fod yn hwyrach na 19eg diwrnod y mis ar ôl y mis y cafodd y swm ei ddidynnu.

Er enghraifft, os byddwch yn didynnu'r arian ar 30 Medi, rhaid ichi ei anfon atom cyn 19 Hydref. Os byddwch yn didynnu'r arian ar 1 Hydref, rhaid ichi ei anfon atom cyn 19 Tachwedd.

### 13.1 Talu drwy BACS (Trosglwyddiad Credyd Awtomatig)

Hwn yw'r dull talu a ffefrir gennym oherwydd ei fod yn ddiogel a bod yr arian yn clirio'n gyflym.

Pan fyddwch chi'n trefnu taliad drwy'r dull hwn, bydd angen yr wybodaeth a ganlyn arnoch:

| | |
|---|---|
| **Enw'r banc** | Barclays Bank, 26 Ffordd y Môr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AE |
| **Enw cyfrif Cyngor Sir Ceredigion** | Cyngor Sir Ceredigion County Council Income Account |
| **Rhif cyfrif Cyngor Sir Ceredigion** | 53775372 |
| **Cod didoli cyfrif Cyngor Sir Ceredigion** | 20-18-74 |
| **Cyfeirnod i ddyfynnu** | IM-DEA |

### 13.2 Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol

Bydd rhaid ichi anfon Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol atom. Mae rhestr wag ar gael yn y ddogfen hon (gweler tudalen 13). Gallwch ei defnyddio a'i chopïo fel y mynnoch. Mae copi ar gael ar ein tudalen we hefyd http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/budd-daliadau/ffurflenni-cais/

Rhaid i'r Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol gynnwys y manylion a ganlyn ar gyfer pob unigolyn y gofynnwyd ichi ddidynnu arian o'i enillion:

- ei enw llawn (enw cyntaf a chyfenw)
- y Rhif Cyfeirnod CSC i'r Cwsmer a nodir ar y Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol a anfonwyd atoch

- y swm a ddidynnwyd (mewn punnoedd sterling) neu
- y rheswm pam na ellir didynnu arian lle bo'n briodol.

Rhaid i swm y trosglwyddiad credyd awtomatig fod yr un fath â **chyfanswm** y didyniadau a ddangosir ar y Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol.

### 13.3 E-bostio'r Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol atom

Os yw'n well gennych, gallwch e-bostio copi electronig o'r rhestr atom yn devandcontrol@ceredgion.gov.uk a gall y taliad ddilyn yn ddiweddarach.

Rhowch 'Hysbysiad DEA' yn nhestun eich e-bost.

## 14. Esiamplau ymarferol o drefniadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol

**Esiampl 1** – Cyflogai sy'n cael ei dalu'n wythnosol heb orchmynion atafaelu blaenorol:

Bydd £57.75 yr wythnos yn cael ei ddidynnu o dâl unigolyn ag enillion net o £385 yr wythnos (yn unol â'r tabl cyfraddau didynnu o 15%).

**Esiampl 2** – Cyflogai sy'n cael ei dalu'n wythnosol a chanddo orchymyn atafaelu blaenorol ar gyfer cynhaliaeth plant

Bydd £17.50 yr wythnos yn cael ei ddidynnu o dâl unigolyn ag enillion net o £250 yr wythnos a chanddo orchymyn atafaelu o £60 yr wythnos eisoes ar gyfer cynhaliaeth plant (yn unol â'r tabl cyfraddau didynnu o 7%).

**Esiampl 3** – Cyflogai sy'n cael ei dalu'n fisol a chanddo orchmynion atafaelu blaenorol sy'n flaenoriaeth

Dylid didynnu £243 y mis o gyflog unigolyn ag enillion net o £1620 y mis ar gyfer y trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol (yn unol â'r tabl cyfraddau didynnu o 15%). Fodd bynnag, byddai'r didyniad hwn, a'r didyniadau o £486 sydd eisoes yn cael eu gwneud, yn golygu bod enillion y cyflogai'n llai na'r enillion gwarchodedig o 60%. Yn yr achos hwn, £162 yw'r uchafswm y gellir ei ddidynnu.

<u>Cyfrifiad</u>

Enillion x 40% = £648 (yr uchafswm ar gyfer yr holl ddidyniadau)

Swm y gorchymyn atafaelu sy'n flaenoriaeth sydd eisoes ar waith = £486

Swm y didyniad Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol = £243

£648 – £486 = £162 (yr uchafswm y gellir ei ddidynnu o dan y trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol)

Felly, er bod y tabl cyfraddau didynnu'n dweud y dylid didynnu swm o £243, mae terfyn yr enillion gwarchodedig yn golygu mai dim ond £162 y gellir ei ddidynnu.

## 15. Ble alla i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, neu os oes angen cymorth arnoch i roi trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ar waith, ffoniwch yr adain Adennill Gordaliadau Budd-dal Tai, Cyngor Sir Ceredigion, ar 01970 633252.

## 16. Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol – Rhestr wirio i gyflogwyr

| | | |
|---|---|---|
| A | A yw'r sawl a enwir yn yr hysbysiad yn gweithio i chi? | **Ydy** – ewch i B<br>**Nac ydy** – rhowch wybod i'r Cyngor cyn pen 10 diwrnod |
| B | A yw'ch busnes yn ficrofusnes?<br>(ceir canllawiau ym mhwynt 1.2) | **Ydy** – ffoniwch y Cyngor ar 01970 633252<br>**Nac ydy** – ewch i C |
| C | A oes unrhyw orchmynion didynnu ar waith eisoes a fydd yn cael blaenoriaeth dros y trefniant Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol ac a fydd yn ei atal rhag cael ei gyflwyno? (ceir canllawiau ym mhwynt 8) | **Oes** – rhowch wybod i'r Cyngor cyn pen 10 diwrnod<br>**Nac oes** – ewch i D |
| D | Cyfrifwch enillion net eich cyflogai at ddibenion y trefniant (ceir canllawiau ym mhwynt 5) | |
| E | A yw'n ennill digon i ganiatáu i ddidyniadau gael eu gwneud? (ceir canllawiau ym mhwynt 6) | **Ydy** – ewch i F<br>**Nac ydy** – rhowch wybod i'r Cyngor cyn pen 10 diwrnod |
| F | Penderfynwch faint o'i enillion net fydd yn cael ei ddidynnu (ceir canllawiau ym mhwynt 6) | |
| G | Os byddwch yn didynnu'r swm hwnnw, a fydd llai na 60% o'i enillion yn weddill – y swm a warchodir? (ceir canllawiau ym mhwynt 6.2a) | **Bydd** – os yw'n bosibl, dylech addasu'r swm a ddidynnir i sicrhau bod 60% o'i enillion yn weddill NEU roi gwybod i'r Cyngor cyn pen 10 diwrnod nad oes modd gwneud unrhyw ddidyniadau<br>**Na fydd** – ewch i H |
| H | Gwnewch yn siŵr nad yw'r cyfanswm a ddidynnir drwy'r didyniad hwn a'r didyniadau blaenorol yn fwy na'r cyfanswm a nodir yn yr hysbysiad | |
| I | Gwnewch y trefniadau angenrheidiol yn y gyflogres i ddidynnu'r swm | |
| J | Rhowch wybod i'r cyflogai faint o arian fydd yn cael ei ddidynnu erbyn y diwrnod talu y caiff y didyniad ei wneud fan bellaf | |
| K | Talwch y swm a ddidynnwyd o enillion eich cyflogai i'r Cyngor erbyn 19eg diwrnod y mis ar ôl y mis y cafodd y didyniad ei wneud fan bellaf<br><br>Anfonwch Restr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol at y Cyngor sy'n cynnwys manylion y taliad (ceir canllawiau ym mhwynt 13) | |

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol**

| I: Gyngor Sir Ceredigion | Gan y Cyflogwr: |
|---|---|
| Adran Gordaliadau Budd-daliadau Tai (D&C)<br>Canolfan Rheidol<br>Rhodfa Padarn<br>Aberystwyth<br>Ceredigion<br>SY23 3UE | |

Rhowch fanylion y cyflogeion y cafodd symiau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol eu didynnu o'u henillion:

| **Eitem** | **Swm** | **Enw llawn y cyflogai** | **Rhif staff / cyfeirnod** | **Rhif Yswiriant Gwladol** | **Rhif Cyfeirnod CSC i'r cwsmer** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | £ | | | | |
| 2 | £ | | | | |
| 3 | £ | | | | |
| 4 | £ | | | | |
| 5 | £ | | | | |
| **Os nad oes modd ichi ddidynnu swm, rhowch fanylion y cyflogai a'r rhesymau dros hynny.** | | | | | |

Manylion y cyflogwr a'r taliad:

| Cyfanswm y taliad sy'n berthnasol i'r daflen hon : | £ | Dyddiad y taliad BACS: | |
|---|---|---|---|
| Enw'r sawl sy'n llenwi'r daflen hon: | | | |
| Rhif ffôn: | | Dyddiad llenwi'r daflen: | |

**Rhaid** ichi lenwi'r rhestr hon pa bryd bynnag y byddwch yn anfon taliad ar gyfer un neu ragor o'ch cyflogeion. Trosodd, ceir manylion am sut i dalu.

## **Sut I Dalu**

### Manylion Talu drwy BACS:

| | |
|---|---|
| **Enw'r banc** | Barclays Bank, 26 Ffordd y Môr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AE |
| **Enw cyfrif Cyngor Sir Ceredigion** | Cyngor Sir Ceredigion County Council Income Account |
| **Rhif cyfrif Cyngor Sir Ceredigion** | 53775372 |
| **Cod didoli Cyngor Sir Ceredigion** | 20-18-74 |
| **Cyfeirnod i ddyfynnu** | IM-DEA |

### Pwysig

Rhaid i swm y trosglwyddiad credyd awtomatig fod yr un fath â **chyfanswm** y didyniadau a ddangosir ar y Rhestr Taliadau Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol trosodd.